Cymorth Cynllunio Cymru | Planning Aid Wales

Cylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru

Chwefror 2010

Cynhadledd Cymorth Cynllunio 2010

'Cymorth Cynllunio – Ymgysylltu â Chymunedau'

Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol Cymorth Cynllunio eleni yng Nghaerdydd ar **ddydd Iau 29 Ebrill a bore dydd Gwener 30 Ebrill 2010**. Bydd yn dod ag ystod o bobl o bob rhan o'r DU at ei gilydd mewn amgylchedd gyfeillgar, hamddenol a fydd yn annog cynadleddwyr i gyfnewid syniadau, i ysbrydoli ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Heblaw am staff a gwirfoddolwyr cymorth cynllunio croesewir hefyd cynrychiolwyr o grwpiau cymunedol a gwirfoddol, cynghorau tref a chymuned ac eraill sydd wedi bod, neu yn cymryd rhan yn gyfredol yn y system gynllunio. Y syniad yw fod cymorth cynllunio ond yn gwneud synnwyr pan mae'n cefnogi pobl o fewn y gymuned a'u cynorthwyo i wireddu eu gweledigaethau a phrosiectau ymarferol.

Yn dilyn anerchiad gan Jane Davidson, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai, bydd rhaglen fywiog o weithdai, grwpiau trafod a theithiau maes yn arddangos ymarfer gorau mewn ymgysylltu â chymunedau wrth gynllunio yn ogystal â mentrau cymunedol calonogol fydd yn elwa o gefnogaeth cymorth cynllunio.

Ymysg y gweithdai bydd adroddiad o lygad y ffynnon am bentref eco Lammas yn Sir Benfro gan Paul Wimbush, un o sylfaenwyr y cynllun arloesol yma. Bydd Patrick Anderson o Planning Aid for London a'r Cynghorydd Lorna Campbell o'r London Borough of Lambeth yn archwilio ffyrdd o ddiwallu anghenion cynllunio cymunedau ffydd sy tu allan i'r prif ffrwd. Bydd Ian Horsburgh o Gymorth Cynllunio Cymru yn dod ag ystod o gydweithwyr a cleientiau at ei gilydd i drafod sut gall cymorth cynllunio helpu Sipsiwn a Theithwyr i oresgyn rhwystrau cynllunio. A bydd y mynychwyr yn plymio pa gyfleoedd sydd yna i bobl leol ddylanwadu ar benderfyniadau ar atomfeydd gyda Sue Webber a Sarah Martin o South West Planning Aid.

Bydd y gynhadledd, dan gadeiryddiaeth Kelvin MacDonald o Brifysgol Caergrawnt, yn gyfle amhrisiadwy i'r rhai sy'n ymwneud â chymorth cynllunio a gwaith cymunedol ledled y DU i ddod at ei gilydd i gael eu hysbrydoli ac i ddatblygu syniadau newydd.

Mae rhaglen fanwl a ffurflen gofrestru ar gael i'w lawrlwytho o *www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/conference* neu drwy gysylltu â Marika Fusser ar 01286 882 834 neu *marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk*. Cysylltwch â Marika hefyd os hoffech ddod â stondin arddangos.

Yn y rhifyn yma….

- Cynllun Iaith Gymraeg
- Noson Gwis
- Adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio
- Cefnogi cynghorau tref a chymuned ym Mannau Brycheiniog
- Gair gan ein Swyddog Hyfforddi newydd
- Astudiaeth achos
- Digwyddiadau
- Cysylltu â ni

Cynllun Iaith Gymraeg Cymorth Cynllunio Cymru

Yn ôl i'r brig

Erbyn hyn mae tair blynedd o'r bron wedi mynd heibio ers i Cymorth Cynllunio Cymru fabwysiadu ei Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf ac mae'n bryd i'w adolygu. Rydym wedi cynhyrchu Cynllun diwygiedig drafft ar gyfer y tair blynedd nesaf ac hoffem gael sylwadau ein cleientiaid a'n cefnogwyr arno.

Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol a drafft y fersiwn ddiwygiedig ar gael ar ein gwefan ar *http://cymorthcynlluniocymru.org.uk/about-us/policies* o 15 Mawrth ymlaen. Anfonwch eich sylwadau at *marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk* erbyn 30 Ebrill 2010.

Noson Gwis Cymorth Cynllunio Cymru a Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru

Yn ôl i'r brig

Mae'r Cwisfeistr, James yn gwahodd ffrindiau a chefnogwyr Cymorth Cynllunio Cymru i Noson Gwis arall ar **Nos Fercher, Ebrill 28ain 2010** am 6.30yh (y cwis i gychwyn yn brydlon am 7.00yh) yng ngwesty'r Park Inn, Heol Mary Ann, canol Caerdydd.

Cost y cwis (fydd yn daladwy ar y noson) fydd £4 i bob cystadleuydd (£3 i fyfyrwyr) gyda'r elw'n mynd at Gymorth Cynllunio Cymru a Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru. Nid yw gwybodaeth gynllunio arbenigol yn angenrheidiol!

Rydym yn croesawu cystadleuwyr yn unigol neu fel tîm i'r cwis. Rydym yn edrych am dimau o bump neu lai i gystadlu. Bydd yn iawn os ydych am gystadlu fel unigolyn oherwydd byddwn yn eich rhoi mewn tîm ar y noson.

Ceir ffurflen gofrestru a chyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y gwesty ar *http://www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/quiznight*

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cwis cysylltwch â James Davies ar *02920 625000* neu *james@cymorthcynlluniocymru.org.uk*

Adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru

Yn ôl i'r brig

Fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o weithrediad y broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu astudiaeth ymchwil sy'n archwilio'r materion a phryderon sy'n nodweddiadol Gymreig sy'n deillio o'r broses ceisiadau cynllunio.

Cymerodd Cymorth Cynllunio Cymru ran yn un o'r grwpiau ffocws a drefnwyd fel rhan o'r ymchwil. Cyfrannodd Cymorth Cynllunio Cymru bersbectif defnyddwyr lleyg y system i'r drafodaeth, yn seiliedig ar brofiadau ein cleientiaid.

Mae tîm Cymorth Cynllunio Cymru hefyd wedi cyflwyno crynodeb ysgrifenedig o'i ymatebion i'r cwestiynau grwpiau ffocws a welir yn *http://cymorthcynlluniocymru.org.uk/about-us/consultation-responses*

Bydd adroddiad yr astudiaeth ar gael i'w lawrlwytho o wefan GVA Grimley *www.gvagrimley.co.uk/wagplanningconsultation* o ddydd Llun 8 Mawrth. Yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad bydd pedair wythnos o ymgynghoriad, a fydd yn dod i ben ar 8 Ebrill 2010. Bydd manylion o sut i gyflwyno sylwadau hefyd yn ymddangos ar y wefan.

Cefnogi cynghorau tref a chymuned ym Mannau Brycheiniog

Yn ôl i'r brig

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi comisiynu Cymorth Cynllunio Cymru am yr ail dro i gynorthwyo cynghorau tref a chymuned i gyfrannu at baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal y parc.

Yn 2008, yng nghyfnod cynnar y broses Cynllun Datblygu Lleol, darparodd Cymorth Cynllunio Cymru gyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant a meithrin gallu ar gyfer cynghorau tref a chymuned o fewn ardal y parc cenedlaethol. Roedd y gweithdai hyn yn esbonio proses Cynllun Datblygu Lleol ac yn annog cynghorau tref a chymuned i chwarae rhan weithredol ynddi. Gwnaethant hefyd gyflwyno cyfranogwyr i amrediad o ddulliau a thechnegau i ymrwymo'u cymunedau lleol. O ganlyniad i'r gwaith hwn gweithiodd y rhan fwyaf o'r cynghorau gyda'u cymunedau lleol i ddatblygu cyfraniad lleol i'r Cynllun Datblygu Lleol oedd yn datblygu.

Yn Ionawr 2009, cyhoeddodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ei Strategaeth a Ffefrir, a chynhaliwyd digwyddiadau a chyfarfodydd ymgynghori i gasglu sylwadau unigolion a chynghorau tref a chymuned. Mae cymunedau eu hunain hefyd wedi trefnu digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae amserlen rheolaidd o weithgaredd ymgynghori ac ymrwymo wedi galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i adeiladu llun o rai o'r pryderon allweddol sydd gan gynghorau tref a chymuned ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu.

Nawr comisiynwyd Cymorth Cynllunio Cymru i gyflwyno rhaglen arall o weithdai hyfforddi a meithrin gallu i gefnogi cyfranogaeth y gymuned yn ystod cyfnodau terfynol paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol o'r 'Ymgynghoriad Adneuo' trwodd i'r Ymchwiliad Cyhoeddus. Bydd y rhaglen hyfforddi rhyngweithredol yn cynnwys tri gweithdy gwahanol a fydd yn parhau am hanner diwrnod yr un ac a draddodir yn ddilynol rhwng diwedd Mawrth a chanol Mehefin 2010.

Bydd y cyfranogwyr yn dysgu am y broses o baratoi cynllun hyd yma ynghyd â'r camau allweddol sydd eto i'w cwblhau. Un agwedd o greu cynllun sydd, yn draddodiadol, wedi denu diddordeb mawr gan gymunedau lleol yw dethol safleoedd penodol ar gyfer adeiladu tai, ac felly esbonnir y fethodoleg a ddatblygwyd gan yr awdurdod cynllunio ar gyfer hyn mewn dull eglur a rhesymegol.

Tynnir sylw'r cyfranogwyr at ymgynghoriadau allweddol gan ystyried ffyrdd ymarferol o nodi a bwydo sylwadau ac uchelgeisiau eu cymunedau lleol yn rhain. Cânt hefyd y cyfle i archwilio'r hyn y gallant hwy ei wneud i fwyhau effaith eu hymrwymiad yn y broses.

Bydd y rhaglen yn gorffen gyda sesiwn galw-i-mewn fydd yn rhoi cymorth a chanllaw ar gyfer cynghorau tref a chymuned sy'n ystyried paratoi ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r digwyddiadau hyn yna ebostiwch *strategy@breconbeacons.org*

Os hoffech ddarganfod mwy am y posibilrwydd o gael rhaglen hyfforddi tebyg yn eich ardal, cysylltwch â Swyddog Hyfforddi Cymorth Cynllunio Cymru, Maria Allen ar 02920 625006 neu *maria@cymorthcynlluniocymru.org.uk*

Gair gan ein Swyddog Hyfforddi newydd

Yn ôl i'r brig

Fy enw i yw Maria a fi yw Swyddog Hyfforddi newydd Cymorth Cynllunio Cymru. Dechreuais weithio i Gymorth Cynllunio Cymru ar ddechrau Rhagfyr ac rwy'n gweithio 18.5 awr yr wythnos ar ddyddiau Llun, Mawrth a Mercher (bore yn unig). Mae fy rôl yn canolbwyntio ran fwyaf ar ddatblygu prosiectau hyfforddi newydd yn ogystal â chydlynu rhaglenni hyfforddi presennol Cymorth Cynllunio Cymru ar gyfer grwpiau dan anfantais, cynrychiolwyr cymunedau a proffesiynolwyr cynllunio.

Yn y gorffennol rwyf wedi gweithio i gymysgedd o gyrff anllywodraethol yng Nghymru yn cynnwys pum mlynedd gydag Age Concern Cymru. Rwyf hefyd wedi mentro i weithio gyda Llywodraeth Leol a threuliais flwyddyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn fwyaf diweddar gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Y prif ffocws yn fy swyddi blaenorol oedd cydraddoldeb, amrywiaeth a

chynhwysiant a chwblheais radd Meistr yn 2006 mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.
Baswn yn falch iawn o glywed gennych os hoffech wybod mwy am ein gwaith hyfforddi. Mae gennym arbenigedd sylweddol mewn darparu pecynnau hyfforddiant penodol i weddu i ystod o gynulleidfaoedd ac anghenion. Cysylltwch â mi yn swyddfa Cymorth Cynllunio Cymru yng Nghaerdydd ar y rhif ffôn 02920 625006 neu ebostiwch *maria@cymorthcynlluniocymru.org.uk*

Astudiaeth achos

Yn ôl i'r brig

Busnes bach yn ennill apêl yn erbyn gwrthodiad cynllunio

Mae Mr A yn rhedeg busnes bach o fan yn gwerthu byrgers a chebabs mewn pentref glofaol yng ngogledd Cymru. Mae'n mynd allan i werthu bron bob nos o'r wythnos ac mae'n aelod poblogaidd o'r gymuned leol. Mae llawer o'i gwsmeriaid yn wynebu caledi ac mae Mr A wedi rhoi bwyd am ddim i bobl mewn angen. Cyn sefydlu ei fusnes, roedd wedi gofyn i'r cyngor a oedd arno angen caniatâd cynllunio. Dywedwyd wrtho ar y pryd nad oedd, ac mae wedi rhedeg ei fusnes ers hynny heb unrhyw gwynion gan y gymuned.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach fodd bynnag, dywedwyd wrth Mr A fod arno angen caniatâd. Ymgeisiodd ond gwrthodwyd ei gais wedi i un yn unig o'r trigolion wrthwynebu. Derbyniodd y Cyngor nifer o lythyrau cefnogol gan y gymuned leol, gydag un yn dweud ei fod wedi gweld Mr A yn codi sbwriel a ollyngwyd gan gwsmeriaid.

Cynghorwyd Mr A gan y swyddog cynllunio oedd yn delio gyda'r achos i gysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru i'w helpu gyda'i apêl. Rhoddodd un o wirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru gefnogaeth gwerthfawr yn ystod y broses apêl ac roedd yn llwyddiannus yn dangos nad oedd busnes Mr A yn fygythiad i gyfleuster trigolion lleol. Enillodd Mr A yr apêl ac mae wedi ailgydio yn ei fusnes.

Nid yw Mr A yn ei chael yn hawdd i gyfathrebu mewn Saesneg na Chymraeg ac mae'n rhedeg busnes bach iawn. Mae felly'n gymwys i gael help gan Cymorth Cynllunio Cymru. Roeddem yn falch iawn fod Cymorth Cynllunio Cymru wedi ei helpu i ennill ei apêl gan ei fod yn aelod ystyrlon a gwerthfawr o gymuned glòs ac yn darparu gwasanaeth a werthfawrogir yn fawr gan bobl lleol.

Digwyddiadau

Yn ôl i'r brig

Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir, cysylltwch â ni (gweler isod).

11 Mawrth, Glyncoch ger Pontypridd
Adfywio cymuned: cyflawni mewn partneriaeth. Seminar ar gyfer ymarferwyr adfywio a datblygu cymuned wedi ei drefnu gan Gydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru. Am fanylion ac i archebu lle cysylltwch â Richard Essex ar 0781 257 6729 neu *ressex@rics.org*

15 Mawrth, Rhyl
Adfywio Rhyl: o strategaeth i gyflawni. Seminar ar gyfer ymarferwyr adfywiad cynaliadwy wedi ei drefnu gan Gydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru. Am fanylion ac i archebu lle cysylltwch â Richard Essex ar 0781 257 6729 neu *ressex@rics.org*

30 Mawrth, Aberhonddu
Cynllunio 'Yr Wybodaeth'. Seminar am ddim ar gyfer busnesau yn y diwydiant twristiaeth wedi ei ddarparu gan Gymorth Cynllunio Cymru, wedi ei drefnu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Am fanylion neu i archebu lle ebostiwch *nicola.williams@breconbeacons.org*

14 Ebrill, 5-9yh, Canolfan Telford, Porthaethwy
Digwyddiad amlddiwylliannol wedi ei drefnu gan Medrwn Môn. Cyfle i flasu gwahanol ddiwylliannau am ddim gyda chyngor a gwybodaeth. Yn cynnwys stondin wybodaeth gan Gymorth Cynllunio Cymru. Am fwy o fanylion ffoniwch 01248 724944.

28 Ebrill, 6.30yh, Caerdydd
Noson Gwis wedi ei threfnu gan Gymorth Cynllunio Cymru a Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Cymru. Gweler uchod am fanylion.

29-30 Ebrill, Caerdydd
Cynhadledd Flynyddol Cymorth Cynllunio. Gweler uchod am fanylion.

Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Llinell Gymorth: 02920 625 000

Ffôn y Brif Swyddfa: 02920 625 009

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Cyfeiriad y Brif Swyddfa:
Llawr cyntaf
174 Heol yr Eglwys Newydd
Y Mynydd Bychan
Caerdydd
CF14 3NB

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas, Prif Weithredwr
Ffôn: 01766 762 244
Ebost: elwyn@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Marika Fusser, Gweithiwr Datblygu'r Gogledd a'r Canolbarth:
Ffôn: 01286 882 834
Ebost: marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

James Davies, Cynlluniwr a Rheolwr Achosion:
Ebost: james@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Ffôn: 02920 625 006

Maria Allen, Swyddog Hyfforddi
Ebost: maria@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Ffôn: 02920 625 006

Kay Sharman, Gweinyddydd a Swyddog Cyllid:
Ffôn: 02920 625 009
Ebost: kay@cymorthcynlluniocymru.org.uk